

sir â'r dref. Wrth edrych yn ôl dros hanes Pwllheli saif enw un dyn ben ac ysgwydd yn uwch na neb arall o'r dref.

Ysgol Ramadeg yn cael ei chynnal ar Allt Salem

Cynhaliai Owen Nicholson Jones ysgol ramadeg mewn tŷ mawr ar Allt Salem a bu nifer o'i ddisgyblion yn fyfyrwyr yn Aberystwyth. Yn eu plith oedd Evan Robert Davies, a fu yno yn 1886-7. Ond 16 oed oedd yn ymadael i gael ei brentisio'n dwrnai ond roedd yn arian byw o ddyrn yn barod a fu'n hynod o weithgar ym mywyd diwylliannol ac yn natblygiad Pwllheli. Penodwyd ef yn glerc y dref yn 1896, swydd a ddaliodd hyd 1920 pan hudodd Lloyd George ef i Downing Street i gadw llygaid ar addysg ac amaeth, ymha gyfeiriadau y bu'n arloesi yn eu datblygiad yn ei sir ei hun. Bu'n flaengar iawn yn hybu'r diwydiant gwyliau yng ngogledd Cymru ac mi fyddai wedi bod yn nodweddiadol o'i anian a'i weledigaeth i hybu patrwm newydd i'r garthen. Y gobaith yw y datguddir rhagor o wybodaeth rywfodd, i oleuo'r hanes.

Trosglwyddo'r gwaith i Rydygwystl

Wedi cael yr hawl breiniol ar ei phatrwm cynhyrchwyd y garthen newydd am nifer o flynyddoedd ym Mhwllheli,

ond caeodd y ffatri yno yn 1912 wedi i dân amharu ar y lle. Trosglwyddwyd y gwaith i ffatri Rhydygwystl, a fu ar agor hyd tuag 1936, ond does dim hanes am gynhyrchu'r garthen yn y fan honno. Yn ystod yr 1960au bu ffatri wlân Trefriw yn ei chynhyrchu mewn amrywiaeth o liwiau yn hytrach na glynu wrth y coch a llwydfelyn gwreiddiol. Mae'n ymddangos mai menter fasnachol oedd honno yn y blynyddoedd yn arwain at Arwisgiad Tywysog Cymru yn 1969, ac nid rhan o'r cynlluniau swyddogol.

Y Garthen ar werth am £400

Mae rhannau o'r gwŷdd Jacquard a ddefnyddiwyd i wneud y garthen ar gadw yn yr Amgueddfa Wlân. Enw ffatri wlân Trefriw arni oedd *Caernarfon and Aberystwyth Quilt*, ac os digwyddir gweld un ar werth mae'n debyg mai'r enw hwnnw a ddefnyddid. Bu un garthen yn lled ddiweddar ar werth gan Sotheby am £350, ond wyddys ddim ai un a wnaed ym Mhwllheli neu yn Nhrefriw oedd honno.

Faint tybed fyddai gwerth carthen efo llun Castell Caernarfon yn unig, pe bai un yn dod i'r golwg, yn enwedig un a wnaed yng Nghaernarfon ar wŷdd llaw? Gall arbenigwr ddweud p'un ai gwŷdd llaw neu wŷdd awtomatig a ddefnyddiwyd i wneud honno. A fydd rhywun yn digwydd darganfod un wrth chwilota o gwmpas y tŷ neu ryw hen sied?

RHODDION

L. W. Davies, Llangoed, Ynys Môn	£3
Gwynnaf Owen, Caerdydd	£3
Alwen Kemp, Llysfaen, Caerdydd	£3
Dafydd Lloyd Hughes, Pencader,	
Caerfyrddin	£8
John V. Pritchard, Skelmersdale, Sir	
Gaerhifryn	£8
Nia Henson, Y Waunfawr,	
Aberystwyth	£3
Bethan Wyn Jones, Llangefni	£3
Dei Tomos, Nant Peris, Caernarfon	£3
Dafydd Huw Jones, Llanrwst	£3
Beti George, Caerdydd	£3
J. R. Thomas, Rhosllannerchrugog,	£3
Rol Williams, Y Waunfawr,	
Caernarfon	£3
R. Tegid Jones, Rhosllannerchrugog	£3
Ben Jones, Caerffili	£3
Rob Davies, Walthamstow	£8
Glenys James, Y Waunfawr,	
Aberystwyth	£10
Ifan H. Pritchard, Nefyn, Pwllheli	£3

(Rhestr i'w pharhau)

CYWIARIAD

Yn erthygl W. Arvon Roberts ar JOHN CHICAGO ar dudalen 11 o'r rhifyn diwethaf dylai 'a brawd i Mary Jones (1852-1938) ac Anne' fod wedi diilyn ar ôl enwau ei rieni.

GWASG GREGYNOG

ELUSEN GOFRESTREDIG/REGISTERED CHARITY 1090060

NEWYDD EI GYHOEDDI

*The Special Bindings of
Gwasg Gregynog*

CATALOG DARLUNIADOL yn disgrifio'r rhwymadau arbennig a gyhoeddwyd gan y Wasg rhwng 1977 a 2002. Argraffiad cyfyngedig i 200 o gopïau rhifedig wedi eu rhwymo â llaw mewn rhwymiad lledr llawn, a'u blocio mewn aur ar y clawr a'r meingefn. Mewn cas slip. 108 tud., 300x200mm. **£300**

ELUSEN

Mae Gwasg Gregynog yn Elusen Gofrestredig ers 2002. Uche gais y Wasg yw cynnal a chadw, yng Nghymru, amgueddfa fyw ar gyfer celfyddydau'r llyfr. I lwyddo yn ei thasg, mae gofyn di-baid i'r Wasg godi arian i hyfforddi cenedlaethau'r dyfodol yn y crefftau traddodiadol o deipog-raffiwaith, argraffu a rhwymo.

*Mae ffurflenni anrhegu ar gael
oddi wrth y Rheolwr.*

LLYFR RUTH

Cyfieithiad William Morgan-Richard Parry, yn cynnwys hefyd ddyfyniadau o ur o emynau Ann Griffiths yn ogystal â chylwyniad i'w morwyn. Dyluniwyd gan John Woodcock, darluniwyd gydag engraffiadau ar bren gan Anna Ravenscroft. Fe'i hargraffiwyd mewn argraffiad a gyfyngwyd i 300 o gopïau. 28 tudalen, 310x230mm. Chwarter liain, ochrau papur. **£110**

AM RESTR GYFLAWN O GYHOEDDIADAU, GYSYLLTWGHI Â

Gwasg Gregynog, Y Drenewydd/Newtown, Powys SY16 3PW

FFÔN 01686 650625 FFACS 01686 650656 E-BOST gwasg_gregynog@talk21.com

NEU GWYLIWCH EIN GWEFAN:

www.gregynogpress.co.uk